

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth
Ychwanegol
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Paratoadau
yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio
EAAL(5) EUP14
Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Welsh Parliament
External Affairs and Additional Legislation
Committee
Exiting the European Union: Preparedness in
Wales for the end of the transition period
Evidence from Natural Resources Wales

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru i baratoi Cymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

1.1 Trosolwg

Mae parodrwydd Llywodraeth Cymru (LIC), a negeseuon a chyfathrebu cysylltiedig ag asiantaethau a rhanddeiliaid, yn ddibynnol iawn ar ganlyniadau negodiadau masnach y DU a phrosesau deddfwriaethol a llywodraethu cysylltiedig a arweinir gan y DU (megis y Mesur Marchnad Fewnol). Mae'r ansicrwydd parhaus hwn yn cael sgil-ffeithiau ar barodrwydd sectoraidd a pharodrwydd busnes ledled Cymru a'r DU.

Mae ein hymateb wedi'i rannu'n adrannau yn erbyn pob cwestiwn ac mae'n cwmpasu'r materion allweddol canlynol:

- Deddfwriaeth
- Llywodraethu amgylcheddol
- Adnoddau a seilwaith ar y ffin
- Cyllid ac adnoddau
- Cyfathrebu
- Covid-19 a digwyddiadau eraill
- Parodrwydd sectoraidd

Nodwn fod LIC yn gweithio'n galed i ddarparu sicrwydd a datblygu mesurau lliniaru ar gyfer risgiau sectoraidd penodol. Er enghraifft, cysylltu â Defra ynghylch cronfa wrth gefn i gefnogi'r sector ffermio defaid ar ôl Ymadael â'r UE ac ynghylch y risg i gadwyni cyflenwi cemegol ar gyfer y diwydiant dŵr, sy'n hanfodol ar gyfer cyflenwad dŵr yfed (mae Covid19 wedi gwaethgu'r risg hon).

Mae LIC wedi nodi o'r blaen na fydd newid yn lefel y diogelwch ar gyfer yr amgylchedd, nac i safonau amgylcheddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU (UKG) wedi rhoi ymrwymiad tebyg o'r blaen. Fodd bynnag, rydym yn debygol o weld newidiadau trwy ddeddfwriaeth LIC a'r DU dros amser. Mae UKG bellach yn cynnig newidiadau i agweddau ar gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag Asesiadau o Effaith Amgylcheddol. Gallai unrhyw "ddargyfeirio rheoleiddiol", er enghraifft o ganlyniad i fargeinion masnach a wneir â gwledydd eraill, effeithio ar gyfch gwaith CNC.

Gallai ansicrwydd ynghylch newidiadau llywodraethu posibl gan gynnwys Trosglwyddo Swyddogaethau (ToF) arwain at oblygiadau sylweddol i rôl a chylch gwaith CNC.

Mae Covid-19 wedi galluogi LIC a CNC i 'brofi straen' rhywfaint o ran lliniaru senario Brexit heb Gytundeb. Fodd bynnag, mae delio ag effeithiau Covid-19 hefyd wedi effeithio ar barodrwydd LIC a rhanddeiliaid ac wedi effeithio ar wytnwch sectoraidd. Os yw effeithiau cydamserol Covid-19 yn gweithredu fel 'effaith lluosydd', er enghraifft os yw ail don yn cydddigwydd â chanlyniad Dim Cytundeb Masnach, gallai waethygu'r risgiau i gynllunio parodrwydd ac aflonyddwch cysylltiedig.

Mae cyfathrebu cyflym ac effeithiol rhwng UKG a LIC yn allweddol i sicrhau parodrwydd ledled y DU. Mae'n ofynnol i gyfathrebu clir ac amserol rhwng LIC, rhanddeiliaid sectoraidd gan gynnwys CNC a'r cyhoedd, gyfeirio at newidiadau perthnasol i brosesau. Bydd hefyd yn hanfodol tynnu sylw at ble mae parhad er mwyn cynnal cydymffurfedd, er enghraifft perthnasedd parhaus amddiffyniadau amgylcheddol cynefinoedd statudol a chyfrifoldebau cysylltiedig â rhanddeiliaid. Trafodir y materion hyn ymhellach yn adran 2.

Mae CNC yn gweithio'n agos gyda LIC i baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE ar draws ystod o feysydd polisi, a gydlynir trwy Raglen Newid UE CNC. Er enghraifft, mae CNC yn gweithio gyda'r is-adran Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (EPRA) i ddatblygu senarios ymadael â'r UE wedi'u diweddarau i barhau i ystyried goblygiadau posibl. Yn ogystal, mae LIC yn parhau i gysylltu â CNC ynghylch cyllid yn y dyfodol i gefnogi rhoi mesurau amddiffyn parhaus tymor hwy ar waith ar gyfer safleoedd a nodweddion Natura 2000 ar ôl Ymadael â'r UE.

Darperir manylion pellach yn yr isadrannau canlynol ac yn adrannau 2-4.

1.2 Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru

Mae amserlen heriol i gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn weithredol o 31 Rhagfyr 2020. Mae rhaglen ddeddfwriaethol LIC yn gyfrifol am ddarparu Offerynnau Statudol (OS) yr UE yng Nghymru yn amserol a chysylltu ag UKG ar OSau y DU. Mae CNC yn adolygu datblygiad y gwaith o gywiro OSau i asesu unrhyw oblygiadau i'n cylch gwaith. Mae LIC yn datblygu deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer amaethyddiaeth, pysgodfeydd a llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol. Mae CNC yn ymgysylltu â LIC ar ddatblygu deddfwriaeth Cymru a chefnogi mewnbwn i ddeddfwriaeth berthnasol y DU.

Gyda UKG a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, mae LIC wedi diwygio deddfwriaeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau sy'n barod ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Mae hyn yn sicrhau y bydd deddfwriaeth y DU a'r UE sy'n ymwneud â'r amgylcheddau daearol a morol yn parhau i fod yn weithredol ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae hyn yn cynnwys [Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau \(Diwygio\) \(Ymadael â'r UE\) 2019](#) a [Rheoliadau'r Amgylchedd Morol \(Diwygio\) \(UE\) 2018](#).

Mae deddfwriaeth newydd UKG ar gyfer Ymadael â'r UE ar gyfer diwydiant ar waith i raddau helaeth ar gyfer diwedd y cyfnod pontio ac mae deddfwriaeth ddiwygio yn parhau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i rai sectorau weithio'n gyflym i sicrhau bod deddfwriaeth ar waith ar gyfer diwedd y flwyddyn, gan gynnwys y sector nwyon tŷ gwydr a Chynllun Masnachu Allyriadau (ETS) arfaethedig y DU.

Mae'r broses o newid deddfwriaethol yn cael ei rheoli gan UKG fel rhan o'r broses drafod.

Mae hyn yn ffactor yn y tebygolrwydd o drosglwyddo'n llyfn. Er enghraifft, mae amser I CNC roi mewnbwn cynhwysfawr i ddatblygu Papur Gwyn Bil Amaethyddiaeth Drafft (Cymru) LIC wedi'i gwtogi. Bydd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn darparu'r fframwaith, y strwythur a'r cyd-destun polisi cyffredinol ar gyfer cyflawni Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig LIC, yn ogystal â chyd-destun rheoleiddiol Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) yn y dyfodol. Mae risg, fodd bynnag, y gallai amcanion Bil Amaethyddiaeth Fewnol y DU ac unrhyw fframweithiau cyffredin y cytunwyd arnynt effeithio'n andwyol ar amcanion Bil Amaethyddiaeth Cymru (Cymru) ar gyfer y SFS a chanlyniadau SLM / SMNR cysylltiedig (gweler adrannau 3 a 4).

Mae risg o fylchau deddfwriaethol ac ansicrwydd ynghylch sut y bydd Cymru yn llywodraethu ac yn rheoli'r bylchau hyn ar ôl y cyfnod pontio, yn enwedig o ran deddfwriaeth amgylcheddol. Oherwydd trafodaethau parhaus, ar hyn o bryd nid yw'n eglur beth fydd y bylchau a'r effaith y gallai'r rhain eu cael ar yr amgylchedd a gallu CNC i reoleiddio a gweithredu mewn perthynas â'i ddyletswyddau statudol.

Mae enghraifft o fwllch deddfwriaethol posibl yn ymwneud ag ymrwymiad parhaus UKG a LIC i Gonfensiwn Bern. Gan na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE, mae angen i ni fodloni cydymffurfiad Confensiwn Bern fel aelod y tu allan i'r UE er mwyn i safleoedd gwarchoddedig ddod yn rhan o'r Rhwydwaith Emrallt, nid o dan 'ymbarél' yr UE fel y mae ar hyn o bryd.

1.3 Llywodraethu Amgylcheddol a dyletswyddau newydd

1.3.1 Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol

Mae CNC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru (LIC) ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol i baratoi ar gyfer fframwaith llywodraethu amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru, yn dilyn diwedd y cyfnod pontio. Mae LIC wedi cadarnhau na fydd y corff goruchwylio amgylcheddol newydd wedi'i sefydlu erbyn diwedd y cyfnod pontio a bydd cyfres o fesurau dros dro mewn grym. Argymhellwyd y mesurau dros dro hyn i ddechrau i gwmpasu cyfnod o 3-6 mis i ddarparu mecanwaith dros dro cymesur nes y gellir datblygu datrysiad tymor hwy. Maent yn cynnwys mecanwaith i ddinasyddion godi cwynion mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, a ffordd briodol o nodi a chofnodi materion eraill wrth iddynt gael eu codi.

Ar hyn o bryd mae LIC yn ceisio penodi asesydd dros dro annibynnol. Mae'n bwysig bod proses briodol i ymchwilio i gwynion a'u trin yn effeithiol yn ystod y cyfnod interim. Byddai hyn yn lleihau'r risg y bydd materion amgylcheddol sylweddol yn parhau heb eu datrys yn ystod y cyfnod interim. Yn ogystal, mae'n hanfodol bod ymgysylltiad effeithiol rhwng corff llywodraethu amgylcheddol Cymru a Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) UKG a chyrrff DA eraill.

Mae risg o ostyngiad mewn atebolrwydd i gynnal safonau a mesurau amddiffyn yr amgylchedd. Mae goblygiadau o ran adrodd (fel Nitradau a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr), sef y risg o golli'r mecanwaith y mae Cymru'n ei ddefnyddio i gasglu data a thystiolaeth am yr amgylchedd sy'n gyrru gwelliannau a pholisi amgylcheddol.

Mae angen gwaith pellach ar ddatblygu'r ddeddfwriaeth a'r corff goruchwylio parhaol yng Nghymru. Mae'n hanfodol nad oes unrhyw orgyffwrdd mewn swyddogaethau rhwng y corff goruchwylio newydd ac asiantaethau presennol fel CNC. Yn benodol mae angen eglurder pellach ar ddarparu cyngor a sut mae hyn yn cyd-fynd â rôl a chylch gwaith y corff newydd, rôl arwain CNC ar

Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'n pwerau, swyddogaethau a dyletswyddau rheoleiddio statudol. Mae potensial hefyd ar gyfer effeithiau ehangach cylch gwaith y corff newydd ar agweddau eraill ar ein rôl gan gynnwys adrodd a monitro, polisi a chanllawiau. Mae'n hanfodol bod y dulliau dros dro a pharhaol yn sicrhau nad oes bylchau llywodraethu.

1.3.2 Trosglwyddo Swyddogaethau (ToF)

Mae Trosglwyddo Swyddogaethau (ToF) o'r UE i'r DU yn debygol o arwain at waith ac atebolrwydd ychwanegol ar gyfer LIC a CNC. Mae union raddfa a natur ToF o'r UE i LIC ac o bosibl i CNC yn ansicr. Prin yw'r amser i ddeall a chyflawni gofynion newydd (monitro, adrodd, ac ati) a'r pwysau cysylltiedig o ran gallu ac adnoddau. Rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau parhaus gyda LIC ynghylch newidiadau posibl i gylch gwaith a chyfrifoldebau CNC yn y dyfodol o ran ToF.

Mae gan ToF effeithiau pellgyrhaeddol ac mae angen ei ddatblygu ymhellach gan gynnwys, er enghraifft, egluro rolau rhwng LIC, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a CNC. Gwnaed peth cynnydd fel gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer ystyried Rhesymau

Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) fel rhan o asesiad amgylcheddol.

Mae hwn yn rhanddirymiad o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a fyddai'n caniatáu i gynllun neu brosiect gael ei gymeradwyo mewn amgylchiadau cyfyngedig.

1.4 Adnoddau a seilwaith ar y ffin

Bydd angen cyfleusterau ar y ffin a seilwaith porthladdoedd newydd yng Nghymru i ddelio â gofynion newydd o ganlyniad i Ymadael â'r UE gan gynnwys telerau Protocol Gogledd Iwerddon (y Protocol). Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r seilwaith sy'n deillio o ddynodi Dinbych-y-pysgod a Chaergybi yn Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCP). Mae angen negeseuon clir gan UKG a LIC i randdeiliaid sectoraidd allweddol i roi sicrwydd a chyfeiriadau ar brosesau mewnfario / allfario (e.e. gofynion nwyddau Glanweithiol a Ffytioiechydol), yr adnoddau sydd ar gael, a datblygu seilwaith y ffin i sicrhau parodrwydd sectoraidd.

Crynhir materion allweddol yn yr is-adrannau isod. Rhoddir mwy o fanylion am effeithiau a pharodrwydd sectoraidd mewn perthynas â risgiau parodrwydd ar y ffin yn adran 2.

1.4.1 Seilwaith Porthladdoedd

Mae'r gofynion ar gyfer BCPau ac ar gyfer gwiriadau mewnfario ac allfario ar y ffin yn cael eu datblygu oherwydd trafodaethau parhaus. Mae LIC yn gweithio o fewn amserlen dynn i weithredu newidiadau yng Nghymru. Nid yw seilwaith y ffin ar waith ar hyn o bryd ac mae adnoddau ac amserlenni yn ansicr. Mae'n debygol y bydd gwiriadau ar y ffin yn cael eu cynnal i ddechrau mewn lleoliadau dros dro (nad ydynt wedi'u cadarnhau) ger porthladdoedd. Mae'n hanfodol bod yr amgylchedd yn cael ei amddiffyn rhag risgiau sy'n gysylltiedig â mwy o storio dros dro ger porthladdoedd ac unrhyw gymhlethdodau posibl.

Bydd datblygu seilwaith mwy parhaol ar gyfer rheoli ffiniau yn gofyn am allu ychwanegol gan Awdurdodau Lleol (ALLau) a rheoleiddwyr i ddarparu goruchwyliaeth briodol. Bydd rhoi rheolaethau mewnfario ar y ffin ar waith yn wasgarog (Ionawr, Ebrill a Gorffennaf 2021) yn gofyn am wyladwriaeth wrth weithredu a diweddarau'r canllawiau yn amserol i randdeiliaid.

1.4.2 Ansicrwydd ynghylch prosesau mewnforio / allforio a chymorth / adnoddau

Mae gan brosesau cymhleth newydd ar gyfer mewnforion ac allforion a diffyg eglurder ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r prosesau hyn y potensial i darfu'n sylweddol ar sectorau a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Er enghraifft, mae ansicrwydd ynghylch argaeledd Milfeddygon Swyddogol (OV) yng Nghymru i brosesu Tystysgrifau Iechyd Allforio (EHCau) ar gyfer allforio nwyddau perthnasol i Ewrop (naill ai trwy Gymrulwerddon neu drwy borthladdoedd Lloegr i'r cyfandir). Mae'n debygol y bydd parodrydd busnes yn cael ei effeithio os oes diffyg adnoddau fel gallu OVau i brosesu EHCau, neu'n syml o ganlyniad i gymhlethdod prosesau newydd.

Trafodir y materion hyn a'u heffeithiau ar sectorau penodol ymhellach yn adran 2.

1.5 Cyllid ac adnoddau

Mae CNC yn gefnogol i safbwynt Llywodraeth Cymru y dylai Cymru, yn dilyn Brexit, dderbyn "nid ceiniog yn llai, na cholli unrhyw bŵer".

Mae UKG wedi ymrwymo i ddisodli Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y DU gyda Chronfa Ffyniant a Rennir. Ar hyn o bryd nid yw UKG wedi nodi eto sut y bydd y gronfa hon yn gweithio, felly o ganlyniad mae nifer o gwestiynau ac agweddau heb eu hateb a allai newid. Mae LIC wedi datblygu cynigion sy'n cynnwys arwain ar gyflawni'r buddsoddiad hwn yng Nghymru ac wedi cynnal ymgynghoriad ar eu dull, y mae CNC wedi ymateb iddo. Rydym yn croesawu ymagwedd ragweithiol LIC tuag at hyn, ond mae'r diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU yn peri pryder cynyddol wrth i'r dyddiad cau agosáu. Hyd yn oed os yw Llywodraeth y DU yn cytuno â dull LIC mae yna fanylion sylweddol a heriol y bydd angen eu datrys cyn y byddai unrhyw gynllun yn weithredol, yn enwedig mewn perthynas â'r strwythurau arfaethedig newydd i gyflawni hyn yn rhanbarthol.

Mae ansicrwydd sylweddol o hyd hefyd ynghylch ffrydiau cyllido eraill, yn enwedig LIFE y mae ymgeiswyr yn cyflwyno cynigion yn uniongyrchol i'r UE amdani, a allai o bosibl gael effaith fwy ar y sector amgylcheddol a chadwraeth natur. Mae'r ffenestr olaf bosibl ar gyfer cael gafael ar gyllid Natur a Bioamrywiaeth LIFE bellach wedi cau, felly o hyn ymlaen mae amhariad sylweddol ar brosiectau posib gwerth miliynau o bunnoedd sy'n mynd i'r afael â gweithredu ar ran yr amgylcheddol a'r hinsawdd. Mae angen cynllunio a pharatoi'n drylwyr ar gyfer y prosiectau mawr hyn. Mae angen penderfyniad brys i sicrhau nad yw prosiectau'n colli momentwm nac arian cyfatebol ac nad yw'r sector amgylchedd yn cael ei roi dan anfantais sylweddol.

Cododd Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru (RIWSG, grŵp rhanddeiliaid dan arweiniad LIC) bryderon ynghylch yr angen i gael dull cydweithredol yng Nghymru i sicrhau na chollid cyfleoedd o ran cyllid Ymchwil ac Arloesi ar lefel y DU.

Fel Gweinyddiaeth Ddatganoledig, darperir cyllid LIC trwy fecanwaith 'grant bloc' UKG ac mae ansicrwydd sylweddol o ran ariannu, yn enwedig i'r sector amaeth-amgylchedd. Mae Llywodraeth y DU wedi addo ymrwymo'r un cyfanswm arian parod mewn cronfeydd i gefnogi ffermwyr tan ddiwedd y Senedd bresennol, a ddisgwylir yn 2022. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi gwarantu y bydd unrhyw brosiectau Colofn 2 CAP lle cytunwyd ar gyllid cyn diwedd 2020 yn cael eu hariannu am eu hoes lawn. Os na chaiff lefelau cyllido ar ôl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) eu cynnal ar ôl 2022 yna bydd hyn yn effeithio ar raddfa a natur cyflawni uchelgeisiau LIC ar gyfer y Mesur Amaethyddiaeth (Cymru). Byddai gan hyn hefyd oblygiadau i gylch gwaith CNC wrth gyflawni SMNR.

1.6. Cyfathrebu

Erys lefel uchel o ansicrwydd a newid ynghylch Ymadael â'r UE a'r cyfnod pontio i lawer o randdeiliaid. Mae cyfathrebu â'n cwsmeriaid, staff a'r cyhoedd yn ffactor allweddol ar gyfer ein gwaith cyfathrebu. Bydd cysylltiadau clir a sefydledig, ynghyd â negeseuon cydgysylltiedig lle bo angen, yn hanfodol i ddarparu cyfathrebu da i'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Cynrychiolir CNC ar Ford Gron Gweinidogion LIC ar Brexit ac mae ein staff Cyfathrebu wedi'u cynnwys yng nghyfarfodydd cyfathrebu rhanddeiliaid LIC. Mae llawer o ffocws y cyfathrebu presennol â sectorau ar lefel Cymru a'r DU wedi'i anelu at sectorau allweddol, megis ffermio, pysgodfeydd a chludiant. Mae'n hanfodol bod gan bob unigolyn a busnes y mae Ymadael â'r UE yn effeithio arnynt fynediad priodol at wybodaeth sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion. Rhaid i hyn gydnabod bod gan fusnesau mawr adnoddau gwell ac y gallant ymateb i ofynion cymhleth a gwybodaeth sy'n newid. Mae sectorau a busnesau llai, gwahanedig yn debygol o fod angen canllawiau cliriach ar ffurf gwybodaeth allweddol ar sut i baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE.

Mae LIC wedi datblygu cyngor ac arweiniad cynhwysfawr ar gyfer rhanddeiliaid sectoraidd a'r cyhoedd ar ei thudalennau [Paratoi Cymru](#).

1.7 Effeithiau Covid-19 ar barodrydd LIC i Ymadael â'r UE

Mae Covid-19 wedi cyflwyno her sylweddol i LIC a CNC ar gyfer rheoli gofynion adnoddau i ddarparu paratoad amserol gogyfer ag Ymadael â'r UE, gan gynnwys deddfwriaeth a seilwaith. Mae ymateb i Covid-19 hefyd wedi effeithio ar allu rhanddeiliaid a busnesau i baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE ac wedi effeithio ar wytnwch sectoraidd. Mae mwy o fusnesau yng Nghymru wedi gweld cwmp mwy mewn trosiant nag mewn manau eraill yn y DU ([Sefydliad Bevan](#) 2020).

1.7.1 Sioc economaidd ac aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi

Mae ein hymateb ar y cyd yng Nghymru yn dangos y gallwn weithredu'n gyflym yn yr amgylchiadau mwyaf heriol. Mae ymateb LIC, CNC a rhanddeiliaid eraill i Covid-19 wedi 'profi straen' rhai agweddau allweddol ar barodrydd LIC i Ymadael â'r UE. Mae hyn wedi meithrin gallu a dealltwriaeth, yn enwedig o ran straen ar y gadwyn gyflenwi a'r mesurau lliniaru sydd ar gael (megis gwaredu llaeth dros ben trwy'r hierarchaeth wastraff).

Mae risg uwch o sioc economaidd ac aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi os oes digwyddiadau'n gysylltiedig â Covid-19 ac unrhyw naid mewn achosion, ar yr un pryd ag y byddwn yn Ymadael â'r UE ddiwedd y cyfnod pontio ar 1 Ionawr 2021. Bydd yn anodd paratoi ar gyfer cyd-ddigwyddiadau o'r fath ac nid yw graddfa'r effeithiau'n hysbys. Gallai digwyddiadau tymhorol fel llifogydd greu straen ychwanegol ar gyfer systemau sydd eisoes dan bwysau.

- Gallai fod goblygiadau sylweddol i adnoddau ar gyfer LIC, CNC a'r holl randdeiliaid allweddol os yw'r staff yn sâl neu'n ynysu, gyda heriau cysylltiedig o ran y gallu adnoddau dynol sydd ar gael.
- Mae'n bosibl nad yw busnesau wedi paratoi'n ddigonol neu nad ydynt yn ddigon gwydn i reoli "effeithiau lluosydd" cydamserol Covid-19 ynghyd ag effeithiau Ymadael â'r UE ac unrhyw ddigwyddiadau tymhorol ychwanegol.

- Mae'r amhariad ar gadwyni cyflenwi o ganlyniad i Covid-19 ac Ymadael â'r UE yn debygol o gynyddu'r risg o ddigwyddiadau llygredd (gweler **adran 2**). Gall hyn arwain at amllder a nifer cynyddol o ddigwyddiadau yn y tymor byr.

1.7.2 Adferiad Gwyrdd

Mae cefnogi gwytnwch sectoraidd a chyhoeddus i'r risgiau hyn trwy raglen Adferiad

Gwyrdd LIC yn hanfodol. Nodwyd, yn ein hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) [ar effaith pandemig Covid-19](#), wrth inni symud i'r cam adfer, bod yn rhaid inni gynnal y momentwm a sicrhau bod yr adferiad yn wirioneddol wyrdd. Rhaid i unrhyw ysgogiad adferiad economaidd beidio ag achosi:

- allyriadau carbon uchel neu risg i'r hinsawdd
- dirywiad bioamrywiaeth
- patrymau defnydd neu gynhyrchu anghynladwy

Rhaid i adferiad Covid-19 gyflymu ein hynt ar y llwybr i ddelio ag argyfyngau'r hinsawdd a natur, gan yrru newidiadau tymor hir mewn ymddygiadau ar lefel unigolion, sectorau, busnes, cymunedau a sefydliadau. Rhaid i ymateb Cymru i Adferiad Covid-19 gael ei yrru gan yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu fel unigolion, diwydiannau, busnesau, sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector ynghylch gwytnwch ein modelau gweithredu a'n ffyrdd o weithio. Mae angen i ni ymrwymo'n hegni ar y cyd i'r pethau hynny rydyn ni wedi'u dysgu ac rydyn ni am wneud mwy ohonyn nhw.

Yn ein hymateb CCERA gwnaethom nodi nifer o feysydd cyfle sy'n ganolog i'n gweledigaeth o Adferiad Gwyrdd. Y pedwar cam allweddol yw: Adeiladu sgiliau gweithlu Cymru; Ailgyssylltu pobl a natur; Rheoleiddio; Caffael gwyrdd a lleol; Cyllid amgylcheddol; Adnewyddu ein model gweithredu - cefnogi ffyrdd newydd o weithio; Cefnogi creu lleoedd.

Parodrwydd sectorau economaidd allweddol yng Nghymru

2.1 Trosolwg: parodrwydd sectoraidd

Bydd canlyniadau negodiadau masnach a datblygu deddfwriaeth y DU a Chymru, fel y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a bil pysgodfeydd Cymru yn creu newid sylweddol ac yn arwain at oblygiadau pellgyrhaeddol, tymor hir. Mae'r diffyg mynediad cyfredol at ragdybiaethau modelu masnach cadarn yn gwaethygu parodrwydd sectoraidd gan gynnwys Sefydliadau anllwywodraethol amgylcheddol (eNGOau). Gall ansicrwydd parhaus effeithio ar lawer o bartneriaid CNC sy'n ymwneud â'n gwaith o ddydd i ddydd. Gallai hyn effeithio ar eu gallu i ymgysylltu â'n gwaith.

Nid yw'n bosibl rhagweld effeithiau a pharodrwydd cysylltiedig i bob sector oherwydd ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â chanlyniad trafodaethau masnach. Mae hyn yn cynnwys risgiau uniongyrchol i dymor byr yr amhariad ar y gadwyn gyflenwi, a drafodir yn adran 2.3 isod. Mae'r amgylchedd deddfwriaethol hefyd yn effeithio ar barodrwydd y sector (gweler adran 1). Byddwn yn parhau i weithio gyda LIC a'r holl randdeiliaid ac asiantaethau perthnasol i liniaru risgiau perthnasol.

Yr her i LIC a CNC yw cyfleu effeithiau a chyfrifoldebau, rheoliadau a phrosesau newydd, a pharodrwydd / mesurau lliniaru LIC i ystod o sectorau heterogenaidd a gwahanedig. Gallai ansicrwydd a negeseuon cymysg greu syrthni ymysg rhanddeiliaid, camddehongli bwriadol neu gyfeiliornus, a diffyg parodrwydd. Gallai hyn arwain at ganlyniadau negyddol i ddeilliannau SMNR yng Nghymru yn y tymor byr, canolig a hir. Rhaid gwneud yr holl randdeiliaid a sectorau amgylcheddol yn ymwybodol y bydd effeithiau o dan unrhyw senario Ymadael â'r UE sy'n debygol o achosi newidiadau i arferion cyfredol. Er enghraifft:

- Mae'n bwysig cyfleu i'r sector amaeth-amgylchedd y bydd materion sy'n debygol o achosi newid mewn defnydd tir dros y tymor canolig i'r tymor hir gydag effeithiau amgylcheddol, economaidd-gymdeithasol cymhleth, niweidiol. Cyflwynir yr effeithiau hyn yn fanwl yn [adroddiadau is-grŵp Tystiolaeth a Senarios LIC](#) sy'n modelu'r newid a ragwelir o ran defnydd tir. Amlinellir effeithiau uniongyrchol i dymor byr i'r sector amaeth-amgylchedd a achosir gan risg yr amhariad ar y gadwyn gyflenwi a sioc economaidd yn yr isadrannau isod.
- Yng Nghymru mae'r sector dŵr cyhoeddus (DCWW a Hafren Dyfrdwy) yn ymwybodol o'r risg i'w gweithrediadau. Maent wedi cymryd mesurau i baratoi a gweithio ar lefel y DU gyda'u cymheiriaid.
- Mae diwydiant yn gyffredinol wedi'i baratoi'n dda ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn bennaf mewn ymateb i'r risg 'Brexit Heb Gytundeb' sydd wedi ysgogi cwmnïau i weithredu nifer o fesurau diogelu gan gynnwys pentyrru stoc ac amddiffyn cadwyni cyflenwi. Er enghraifft, mae rhywfaint o ddibyniaeth ar symud radio-isotopau yn barhaus at ddibenion diagnostig a thriniaeth mewn ysbytai arbenigol. Mae'r rhai yr effeithiwyd arnynt wedi rhoi adnoddau wrth gefn i amddiffyn y cadwyni cyflenwi hanfodol hyn. Mae'r adnoddau wrth gefn hyn yn anfwriadol wedi darparu gwytnwch yn erbyn y pandemig Covid-19 presennol ac mae'r sefyllfa'n cael ei hadolygu'n gyson fel rhan o drefn arolygu CNC.
- Mae angen llawer iawn o ganllawiau ar gyfer y mwyafrif o gyfundrefnau diwydiannol er mwyn sicrhau parodrwydd sectoraidd, er enghraifft y Cynllun Masnachu Allyriadau. Mae angen cyfathrebu clir ac amserol gyda gweithredwyr a'r cyhoedd ar newidiadau diwydiannol sy'n gysylltiedig â'r Ymadawiad â'r UE oherwydd diwedd y cyfnod pontio. Mae'n rhaid i LIC a

DAau ddatblygu polisi cadarn i gefnogi'r ffyrdd newydd hyn o weithio. Mae ansicrwydd ar hyn o bryd yn golygu bod diffyg polisi ac arweiniad addas ar gyfer rhanddeiliaid.

- Er mwyn cynorthwyo'r sector gwastraff i gyd i fod yn barod, mae CNC yn dal i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, asiantaethau eraill ac Awdurdodau Lleol wrth feithrin cyswllt a rhoi cyngor i nifer o grwpiau rhanddeiliaid yn y diwydiant gwastraff a chyfundrefnau cyfrifoldeb cynhyrchwyr.

Mae ansicrwydd parhaus ynghylch 'cyfeiriad y teithio' ei hun yn cael effeithiau sectoraidd. Mae graddfa a chyflymder y newid dros amser yn debygol o gael effaith andwyol ar sectorau allweddol ac ar gynnal gweithrediad gweithdrefnau diwygiedig neu geisiadau am drwyddedau rhanddirymiad, er enghraifft.

Fel y nodir yn adran 1.7, mae Covid-19 yn gwaethygu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amharoddrwydd sectoraidd a diffyg gwytnwch sectoraidd i ddelio â straen. Gallai hyn arwain at effaith economaidd gydag effeithiau canlyniadol ar yr amgylchedd a lles. Mae cyfathrebu cyflym, effeithiol, clir ac amserol yn allweddol i liniaru hyn.

Nodir risgiau a materion penodol yn yr isadrannau canlynol.

2.2 Diffyg argaeledd neu golli mynediad at nwyddau a gwasanaethau hanfodol

Gallai anallu i gael cyflenwadau yn eu meintiau, mathau neu fanylebau arferol gan gynnwys cemegolion, offer, cyfarpar a deunyddiau crai arwain at effaith economaidd neu weithredol ar fusnesau, a thrwy hynny arwain at effeithiau amgylcheddol. Gallai hyn arwain at ddiffyg cydymffurfio, methiant mewn gweithrediadau, defnyddio eitemau amhriodol yn lle'r rhai safonol (defnydd answyddogol) neu fethu â chynnal yr un safonau. Gwaethygir hyn lle mae cadwyni cyflenwi yn gymhleth ac yn ddibynnol ar sectorau eraill.

Mae ansicrwydd ar gyfer y gofynion deddfwriaethol yn y tymor hwy yn cwtogi ar fuddsoddiad ac arloesedd, gan gynyddu'r pwysau ar feysydd y mae Ymadael â'r UE yn effeithio arnynt gan gynnwys cadwyni cyflenwi cemegol.

2.3 Materion mewnfario ac allfario gan gynnwys rheolaethau ffiniau

2.3.1 Rheolaethau ffiniau

Mae gan brosesau mewnfario ac allfario gan gynnwys gofynion gwirio ffiniau y potensial i achosi oedi ac aflonyddwch uniongyrchol a sylweddol ym mhorthladdoedd Prydain Fawr, gan gynnwys porthladdoedd Cymru. Er enghraifft, mae rheolaethau mewnfario newydd ar gyfer ffiniau, a gyflwynwyd o fis Ionawr 2021 yn gofyn am reolaethau Glanweithiol a Ffytioiechydol (SPS) ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i Ogledd Iwerddon o drydedd wlad neu Brydain Fawr. Bydd cyflwyno gwiriadau newydd yn digwydd yn gyfnodol mewn tri cham ar: (1) 1 Ionawr 2021, (2) Ebrill 2021, a; (3) Gorffennaf 2021 a allai achosi aflonyddwch ym mhorthladdoedd Cymru os nad yw'r seilwaith a'r busnes wedi'u paratoi'n ddigonol.

Mae gofynion mewnfario ac allfario newydd ar gyfer nwyddau penodol, er enghraifft gofynion gwirio Glanweithiol a Ffytioiechydol (SPS) yn gymhleth iawn. Mae gan brosesau cymhleth newydd ar gyfer mewnfario ac allfario a diffyg eglurder ynghylch yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r prosesau hyn y potensial i darfu'n sylweddol ar sectorau a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Mae

negeseuon ac arweiniad clir, yn enwedig ond nid yn unig ar gyfer y sector amaeth-amgylchedd, yn hanfodol i gefnogi parodrwydd busnes i gyfyngu ar aflonyddwch.

Gallai aflonyddwch achosi digwyddiadau ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi. Gallai unrhyw oedi yng ngweithdrefnau mewnfario ac allfario olygu bod nwyddau'n troi'n wastraff, ac felly bod nwyddau darvoudus 'mewn union bryd' yn cael eu gwaredu a'u taflu, gan arwain at fwy o berygl o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwastraff a llygredd. Mae Covid-19 wedi dangos i ni nad yw'r mwyafrif o sectorau wedi'u paratoi'n llwyr ar gyfer effeithiau aflonyddwch sylweddol yn y gadwyn gyflenwi sy'n risg allweddol sy'n gysylltiedig â diwedd y cyfnod pontio. Mae CNC wedi ystyried y risgiau hyn o safbwynt gwastraff ac mae mesurau lliniaru ar waith ar gyfer yr effeithiau a ragwelir. Mae'r digwyddiadau'n cynnwys:

- Mae risg y bydd llaeth yn cael ei waredu ar ffermydd; fodd bynnag, mae gan CNC strategaeth lliniaru glir o ran defnyddio'r "hierarchaeth wastraff" ar gyfer y risg hon.
- Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwaredu gwastraff amaethyddol yn anghywir i dir fel gwaredu carcassau anifeiliaid yn cael ei reoli gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Dim ond o dan rannirymiad y'i caniateir.
- Mae gan gyrrff rheoleiddio yn y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys CNC, gytundeb â Llu'r Ffiniau i ddarparu cymorth, cyfarwyddyd a data tuag at eu cynlluniau wrth gefn ar gyfer dulliau priodol o waredu unrhyw nwyddau sy'n difetha a throï'n wastraff.
- Gallai toriad yn y gadwyn gyflenwi ac oedi mewn porthladdoedd arwain at fwy o ddefnydd o storfeydd dros dro a pharciau lorïau, a fyddai'n creu mwy o berygl o lygru'r amgylchedd. Gwaith anodd a drud fyddai mynd i'r afael ag unrhyw lygredd mewn dŵr daear o ganlyniad i hyn, a gallai arwain at fwy o halogi tir ymhellach yn y dyfodol.
- Gallai ansicrwydd ynghylch rheolaethau ffiniau arwain at ddiffyg camau ar sail tystiolaeth ac wedi'u targedu mewn perthynas â Rhywogaethau Goresgynnol Estron (INNS) yng Nghymru a'i moroedd. Bydd colli mynediad i rwydweithiau a systemau rhybuddio'r UE yn lleihau ein gallu i sganio'r gorwel a pharatoi.

2.3.2 Cyfleusterau storio dros dro ym mhorthladdoedd Cymru neu'n agos atynt

Mae canllawiau gan Lywodraeth y DU ar sut i weithredu cyfleuster storio dros dro os bydd oedi mewn porthladdoedd yn awgrymu y bydd rheoliadau'r DU yn cynnal y gofynion presennol ar gyfer capasiti storio a chofrestru eiddo. Mae angen eglurder pellach ar sut y bydd hyn yn cael ei weithredu yng Nghymru. Y prif bryder i CNC gyda storio dros dro mewn porthladdoedd neu'n gysylltiedig â phorthladdoedd, yw llygredd yr amgylchedd ehangach. Mae cyfleusterau annigonol neu amhriodol yn cynyddu'r risg hon, megis darpariaethau draenio amhriodol, arwynebau athraidd, gollyngiadau ac arllwysyadau tanwydd. Ar hyn o bryd mae diffyg arweiniad neu gyfeirio at ganllawiau presennol i atal llygredd dŵr a dŵr daear ar dudalennau gwe storio dros dro Llywodraeth y DU.

2.3.3 Symud Gwastraff

O 1 Ionawr 2021, bydd Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ymwahanu yn eu dull o reoli llwythi gwastraff. Gan fod hwn yn fater a gedwir yn ôl, mae Defra a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn dal i drafod yr union ddull o reoleiddio hyn, ac mae CNC a LIC yn cyfrannu at y trafodaethau hynny.

Safbwynt Defra ar hyn o bryd yw na ddylid rhoi hysbysiad ond ar gyfer symudiadau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Y cynigion presennol yw:

- Bydd yn rhaid hysbysu wrth symud gwastraff a mathau penodol o wastraff nad yw'n beryglus o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon
- Bydd yn rhaid cwblhau ffurflenni Atodiad VII ar gyfer symud Gwastraff Rhestr Werdd o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon
- Gwaherddir allforion er gwaredu o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon

Ymhlith y materion allweddol mae:

- Allforion gwastraff Prydain Fawr (Cymru) i Ogledd Iwerddon. Dros y 5 mlynedd diwethaf mae allforion gwastraff Cymru i Ogledd Iwerddon wedi bod oddeutu 15k tunnell ar gyfartaledd o <20 o gyfleusterau gwastraff a ganiateir.
- Baich cost i fusnesau Cymru sydd angen hysbysiadau Llwythi Trawsffiniol (TFS) i CNC.
- Bellach mae'n ofynnol i CNC edrych ar ddata mewnfario o Ogledd Iwerddon i ystyried symiau i gefnogi parodrwydd sectoraidd Cymru.
- Gallai'r newidiadau hyn fod yn ddadleuol o safbwynt gwleidyddol gan y gellid eu dehongli fel rhwystr i fasnach rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

Gall Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau ddod yn broblem, yn enwedig o ystyried diwygiadau ychwanegol i Gonfensiwn BASEL i ddsbarthiad plastigau. Mae'r newidiadau'n golygu, ar ôl 1 Ionawr 2021, mai dim ond fel gwastraff rhestr werdd (B3011) y gellir allforio plastigau gwastraff nad ydynt yn beryglus, os ydynt i fod i gael eu hailgylchu mewn modd sy'n amgylcheddol fuddiol a bron yn rhydd o halogiad a mathau eraill o wastraff. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr hysbysiadau y mae CNC yn eu derbyn a bydd yn arwain at gostau gweinyddol i CNC.

2.4 sioc economaidd: risgiau ac effeithiau sectoraidd

Mae gan effeithiau rhwystrau tariff a di-dariff ar fasnach ac aflonyddwch cysylltiedig yn y gadwyn gyflenwi'r potensial i achosi aflonyddwch sectoraidd sylweddol gan fod sectorau penodol yn destun sioc economaidd. O ganlyniad i'r aflonyddwch hwn mae'n debygol y bydd mwy o ddigwyddiadau, ac y byddant yn cymryd mwy o amser i'w datrys, gan gynnwys diffyg cydymffurfio, gweithgarwch anghyfreithlon neu heb ei ganiatáu.

Gallai'r risgiau hyn gael effaith amgylcheddol sylweddol gyda goblygiadau i adnoddau CNC. Mae'n debygol y bydd galw cynyddol am swyddogaethau trwyddedu, caniatáu, rheoleiddio a gorfodi CNC yn ogystal â galw cynyddol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau llygredd. Mae CNC wedi ystyried y risgiau hyn o safbwynt gwastraff ac mae mesurau lliniaru ar waith ar gyfer yr effeithiau a ragwelir.

Mae'r sector amaeth-amgylchedd yn arbennig o agored i 'sioc economaidd' sy'n gysylltiedig â masnach, yn enwedig mewn senario Dim Cytundeb Masnach, er enghraifft effeithiau ar y farchnad allforio cig oen o ganlyniad i dariffau. Mae'r rhwystrau hyn i fasnach yn gymhleth ac yn anodd eu rhagweld, gan ei gwneud hi'n anodd i'r sector baratoi'n effeithiol. Mae sioc economaidd yn debygol o gynyddu'r risg o ddigwyddiadau tymor byr (diffyg cydymffurfio, dympio) â risgiau llygredd posibl. Ar y tir ac ar y môr gallwn weld achosion o ddympio stoc neu ddefnyddio cemegolion amhriodol,

gan achosi niwed uniongyrchol neu wasgaredig i gynefinoedd a rhywogaethau ac ecosystemau. Mae risgiau tymor hir yn gysylltiedig â newid anghynladwy i ddefnydd tir a allai arwain at gollu cynefinoedd a rhywogaethau. Mae yna hefyd risgiau'n gysylltiedig â chydymffurfio ag amodau trwyddedau a chynlluniau a'r gostyngiad posibl yn y nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd mewn cynlluniau grant presennol ac yn y dyfodol.

Mae digwyddiadau tymor byr a newid tir tymor hwy o ran defnydd tir yn peri'r risg o effeithiau negyddol ar fioddioelwch, safonau iechyd a lles anifeiliaid, safonau amgylcheddol, a risgiau i wead cymdeithasol cymunedau gwledig gan gynnwys iechyd a lles ffermwyr. Byddai effeithiau o'r fath hefyd â goblygiadau sylweddol i ddyletswydd statudol CNC i gyflawni SMNR. Byddai colli unrhyw gyllid yn y maes arian amaethamgylchedd yn gwaethgu'r sioc economaidd i'r sector hwn.

Mae'r sector pysgodfeydd morol yn paratoi ar gyfer y senario waethaf; h.y. dim cytundeb masnach a rhwystrau tariff a di-dariff. Mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at faterion tymor byr i ganolig o ran symud cynhyrchion byw trwy borthladdoedd, tarfu ar farchnadoedd yr UE a gostyngiad mewn gweithgarwch economaidd (pysgota) oherwydd effeithiau ar y galw a chludiant. Gellir cymharu effeithiau Covid-19 ar y diwydiant pysgota â diwedd y cyfnod gweithredu heb gytundeb masnach; effeithiwyd ar farchnadoedd a gostyngodd y galw. Darparodd LIC gynllun caledi yn ystod Covid-19. Efallai y bydd angen ymyrraeth bellach os bydd senario Dim Cytundeb Masnach. Mae Corff y Diwydiant Pysgod Môr wedi darparu sawl canllaw defnyddiol ar gyfer y sector mewn perthynas â [diwedd y cyfnod pontio](#).

2.5 Gorfodi cyfraith amgylcheddol

Un o'r bylchau allweddol i'r sector amgylcheddol yn sgil yr ymadawiad â'r UE yw gorfodi cyfraith amgylcheddol a mecanwaith i ddinasyddion godi materion mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol. Bydd rôl allweddol yn hyn i'r corff goruchwyllo amgylcheddol newydd, ac i'r asesydd dros dro nes bydd y corff parhaol yn ei le. Fodd bynnag, mae angen o hyd i egluro perthynas sefydliadau presennol â'r asesydd a'r corff newydd, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw orgyffwrdd mewn swyddogaethau yn ogystal â phroses brysbennu gyffredin ac effeithiol ar gyfer cwynion amgylcheddol strategol.

Mae angen i LIC a CNC sicrhau bod digon o adnoddau priodol ar waith i asesu'r nifer disgwylidig o gwynion a reolwyd yn flaenorol ar ein rhan gan yr UE. Mae'n debygol hefyd y bydd cynnydd mewn cwynion ar ôl sefydlu a chyhoeddi proses cwynion amgylcheddol newydd yng Nghymru. Felly mae'n hanfodol bod LIC yn sicrhau bod y sefydliad cywir a phobl sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth briodol yn mynd i'r afael â'r cwynion amgylcheddol strategol hyn. Oherwydd natur ein cylch gwaith, mae CNC yn disgwyl y bydd angen adnoddau ac arbenigedd CNC ar gyfer nifer sylweddol o'r cwynion hyn.

Mae angen eglurder pellach hefyd ar rôl y corff goruchwyllo amgylcheddol arfaethedig mewn perthynas ag adolygu a gosod safonau a chraffu ar berfformiad yn erbyn y safonau hynny. Mae hon yn swyddogaeth bwysig y dylid ei chefnogi gan baneli cyfeirio arbenigol diduedd ag adnoddau addas gan gynnwys arbenigedd mewn polisi, rheoleiddio a'r byd academiaidd. Os na chaiff ei gefnogi'n ddigonol neu ei ddiffinio'n glir, gallai hyn arwain at fwllch sylweddol mewn atebolrwydd, gydag effeithiau canlyniadol ar yr amgylchedd ac ar draws y sector.

Mae cadarnhad ar y dull gweithredu ar gyfer y fframwaith llywodraethu amgylcheddol newydd, yn ogystal â swyddogaethau a fformat y corff goruchwyllo amgylcheddol newydd yn allweddol ar gyfer paratoi'n effeithiol. Bydd eglurder ynghylch manylion unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar ddod i

ymgorffori'r dull yn cefnogi CNC a'r sector amgylcheddol ehangach yn eu parodrwydd ar gyfer y cyfnod ôl-drosglwyddo.

Mae Ymadael â'r UE yn achosi ansicrwydd gydag effeithiau canlyniadol ar barodrwydd sectoraidd a pharodrwydd busnes. Er enghraifft, rhanddeiliaid yn manteisio ar gontractau ar gyfer gwelliant ecolegol a phrosiectau. Mae'n hanfodol bwysig darparu cyfathrebiadau clir i bwysleisio y bydd ymrwymadau a rhwymedigaethau bioamrywiaeth blaenorol yr UE wedi'u hymgorffori yng nghyfraith y DU ar y tir ac ar y môr, felly maent yn dal yn berthnasol i bobl nodi ac ymateb iddynt yn briodol.

Mae angen cyfathrebu cydgysylltiedig clir a diamwys gan LIC a CNC ar amddiffyn safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau gwarchoddedig yn barhaus er mwyn atal camddealltwriaeth posibl ynghylch gweithdrefnau (cyfeiliornus neu fwriadol) gan arwain at golli neu ddifrodi ecosystemau. Mae'r cyfathrebu hwn yn hanfodol gan fod y pandemig Covid-19 presennol eisoes wedi gweld cynnydd mewn digwyddiadau, megis carthu afonydd heb ganiatâd. Gall hyn gyfuno â'r Ymadawiad â'r UE i arwain at gynnydd parhaus os na chymerir camau rhagataliol.

Y goblygiadau ar gyfer parodrwydd sy'n deillio o drafod cytundebau rhyngwladol y DU

3.1 Trosolwg

Erys ansicrwydd sylweddol ynghylch negodi cytundebau masnach rhyngwladol y DU gyda'r UE a chenhedloedd eraill. Mae hyn yn cael effaith ar allu CNC a'r sector amgylcheddol i baratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd yn y dyfodol, eu blaenoriaethu a sicrhau adnoddau ar eu cyfer. Fel y nodwyd yn adrannau 1 a 2, mae ansicrwydd parhaus yn effeithio ar barodrwydd Cymru ymysg LIC, asiantaethau a rhanddeiliaid sectoraidd.

Ar hyn o bryd mae UKG yn trafod gyda nifer o bartneriaid rhyngwladol ar yr un pryd. Mae yna faterion cymhleth sy'n aml yn gysylltiedig â'i gilydd sy'n parhau i fod heb eu datrys ac sy'n cael effaith ar gylch gwaith statudol Cymru a CNC. Er enghraifft, mae Bil Pysgodfeydd y DU yn darparu'r fframwaith ar gyfer llunio cytundebau pysgodfeydd ac mae'n dibynnu ar ganlyniad trafodaethau masnach yr UE.

Bydd canlyniad trafodaethau masnach a newidiadau deddfwriaethol yn arwain at heriau a chyfleoedd yng Nghymru. Waeth beth fo'r canlyniadau, bydd gofynion proses ychwanegol fel gwiriadau ar y ffin yn cael sgil-ffaith ar risg economaidd ac amgylcheddol (gweler adran 2). Gallai dargyfeirio rheoleiddiol o ganlyniad i ddeilliannau negodiadau masnach arwain at ostyngiad mewn safonau amgylcheddol. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar ddyletswydd statudol CNC i gyflawni SMNR. Mae CNC yn monitro ac yn asesu risgiau ac effeithiau unrhyw ddiweddariadau ar y trafodaethau i'n gweithgareddau a'n blaenoriaethau yn barhaus.

Rhoddir mwy o fanylion yn yr isadrannau canlynol:

3.2 Peryglon gostyngiad mewn safonau amgylcheddol a safonau eraill yng Nghymru

Mae risg y gallai canlyniadau negodiadau masnach UKG effeithio'n negyddol ar amcanion LIC i gynnal safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchel. Effeithir ar hyn hefyd gan ofynion o ran cydraddoldeb o fewn y DU trwy'r Bil Marchnad Fewnol ac unrhyw ddefnydd o Fframweithiau Cyffredin (gweler adran 4). Gallai hyn effeithio ar safonau yng Nghymru a'i dyfroedd tiriogaethol (dargyfeiriad rheoleiddiol). Os yw safonau amgylcheddol sy'n dirywio yn arwain at arferion gwael ar dir, gall hyn hefyd fod â goblygiadau i'r amgylchedd daearol a morol ehangach trwy effeithiau lleol fel llygredd dŵr a sbwriel morol, ac effeithiau bydeang, megis newid yn yr hinsawdd.

3.3 Peryglon effeithiau a bylchau mewn deddfwriaeth a llywodraethu

Mae yna nifer o fylchau deddfwriaethol a llywodraethu posib gan gynnwys o ganlyniad i gytundebau masnach, sefydlu fframweithiau cyffredin, trawsosod cyfarwydddebau, a chywiro OSau. Gall y rhain gyfyngu ar allu CNC i gyflawni dyletswyddau statudol. Trafodir y risgiau hyn yn adrannau 1.2, 1.3 a 2.5 o'r ymateb hwn.

3.3.1 Perthnasau a chytundebau rhyngwladol

Bydd canlyniad trafodaethau masnach yn cael effaith i CNC ar ein gwaith rhyngwladol a'r gwledydd a'r sefydliadau allweddol y byddwn yn ceisio meithrin perthnasoedd â nhw yn y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu strategaeth ymgysylltu ryngwladol ffurfiol. Mae hefyd angen parhau i

ddatblygu ein hymagwedd tuag at gytundebau rhyngwladol ar ôl Ymadael â'r UE, er enghraifft, targedau ac ymrwymadau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Bydeang sydd ar ddod.

3.3.2 Colli mynediad i gronfeydd data a rhwydweithiau'r UE

Gallai'r DU a Chymru golli aelodaeth i nifer o rwydweithiau ac asiantaethau rhannu gwybodaeth yr UE sy'n hanfodol ar gyfer rhybuddion cyflym, cyfnewid gwybodaeth, arferion da, blaenoriaethau ymchwil a rennir, a datblygu dulliau cyffredin. Ymhlith yr enghreifftiau mae ECHA, EUROPHYT, EURATOM, ADNS a'r AEE.

Byddai hyn yn cael effaith ar drosglwyddo gwybodaeth, llywodraethu amgylcheddol a chynnal arferion da o ran diogelu'r diwydiant a'r amgylchedd. Byddai colli mynediad i gronfeydd data a rhwydweithiau'r UE hefyd yn lleihau ein gallu i fynd i'r afael â materion trawsffiniol allweddol fel newid yn yr hinsawdd, iechyd planhigion ac anifeiliaid a bioddiogelwch. Byddai ganddo hefyd oblygiadau o ran bodloni gofynion statudol ar gyfer adrodd a rhannu tystiolaeth.

Mae'r rhwydweithiau a'r asiantaethau hyn yn cynorthwyo'r aelodau i gyflawni eu rhwymedigaethau dan gyfraith ryngwladol a deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, fel y'u troswyd i gyfraith wladol ac yn hyrwyddo cysondeb mewn prosesau rheoleiddio amgylcheddol. Bydd colli aelodaeth i'r rhwydweithiau hyn yn cael effaith ar allu holl Reoleiddwyr Amgylcheddol y DU i gynnal cydymffurfiaid â'r deddfwriaeth bresennol ac yn lleihau ein mynediad at arloesedd ac arferion da.

3.3.3 Dargadw cyfraith achosion

Mae'r mwyafrif o deddfwriaeth amgylcheddol y DU yn deillio o gyfraith yr UE sydd wedi'i throsi i gyfraith y DU. Mae ansicrwydd ynghylch trosglwyddo cyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop i'r DU yn dilyn Ymadael â'r UE. Gall hyn, dros amser, ei gwneud yn ofynnol i gynseiliau cyfreithiol presennol gael eu hailsefydlu a gallai unrhyw newid i gynsail cyfreithiol gael effaith negyddol ar safonau amgylcheddol.

3.3.4 Trosglwyddo Swyddogaethau (ToF) a chyrrff llywodraethu

Mae gennym bryderon ynghylch bylchau llywodraethu a diffyg eglurder ar ToF o ganlyniad i ansicrwydd negodiadau masnach. Trafodir y materion hyn yn fanwl yn 1.3 a 2.5.

3.4 Peryglon aflonyddwch sectoraidd a sioc economaidd

Mae gan ansicrwydd parhaus ynghylch canlyniad trafodaethau masnach ac unrhyw newid sylweddol i reoliadau ac arferion cyfredol y gallu i arwain at aflonyddwch sectoraidd sylweddol a sioc economaidd. Gweler adran 2 i gael mwy o fanylion am effeithiau sectoraidd.

Cytundebau rhynglywodraethol o fewn y DU sy'n ymwneud â diwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys y rhaglen fframweithiau cyffredin

4.1 Trosolwg

Fel aelod o'r UE, mae cywerthedd rheoliadol ledled y DU wedi'i yrru gan gymhwyso rheoliadau a safonau'r UE. Oherwydd ein Hymadawiad â'r UE, mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch sefydlu a llywodraethu marchnad fewnol y DU. Cynigiwyd fframweithiau cyffredin ar sail rynglywodraethol (e.e. ar gyfer mewnforion planhigion a hadau) i danategu safonau rheoleiddio wedi'u cysoni ledled y DU. Byddai cynnydd ac eglurhad ar gyfer uchelgeisiau a rennir yn rhoi sicrwydd i lunwyr polisi, rheoleiddwyr, busnesau a'r cyhoedd.

Mae Bil Marchnad Fewnol UKG yn dal i fod yn destun newid, ond mae eglurder ar sut mae agweddau ar Brococol Gogledd Iwerddon a chymhwysedd datganoledig yn cael eu defnyddio yn hanfodol ar gyfer paratoi ar gyfer Ymadael â'r UE yng Nghymru gan LIC, CNC ac asiantaethau eraill. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Bil Marchnad Fewnol y DU a chanlyniadau negodiadau masnach, mae risg y gallai amcanion LIC i gynnal safonau amgylcheddol uchel a lles anifeiliaid gael eu heffeithio'n negyddol. Gall hyn hefyd gael effaith ar ba mor gystadleuol yw busnesau Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi o'r blaen y bydd safonau amgylcheddol yn cael eu cynnal, ond byddai cadarnhad o ymrwymadau, mesurau a thargedau deddfwriaethol penodol yn rhoi sicrwydd. Mae pryder eang ymhlith rhanddeiliaid gan gynnwys eNGOau ynghylch y risg barhaus y bydd safonau amgylcheddol yn gostwng ar ôl Ymadael â'r UE. Dylai'r gwaith rhagorol sy'n weddill ar fframweithiau cyffredin geisio cau'r bylchau a'r risgiau hyn a datrys unrhyw faterion trawsffiniol posibl.

4.2 Fframweithiau cyffredin

Byddai fframwaith ar gyfer llywodraethu amgylcheddol wedi'i danategu gan amcan, egwyddorion a safonau cyffredin yn helpu i osgoi bylchau wrth weithredu polisi amgylcheddol ledled y DU. Byddai'r dull hwn hefyd yn egluro rôl a chylch gwaith cyrff goruchwyllo a chyrff cyhoeddus rheoleiddiedig lle mae cylchoedd gwaith datganoledig a heb eu datganoli yn cyd-daro.

Byddai fframwaith ac egwyddorion amgylcheddol cyffredin ar lefel y DU hefyd yn lleihau'r risg o ddargyfeirio rheoleiddiol ac yn darparu llinell sylfaen gyffredin i dirfeddianwyr a diwydiant, waeth beth yw eu lleoliad. Byddai hyn yn lleihau'r risg y byddai 'ras i'r gwaelod' neu faterion trawsffiniol eraill fel difrod amgylcheddol trawsffiniol yn ddarostyngedig i wahanol safonau rheoleiddio. Byddai hefyd yn helpu i egluro sut mae rheoleiddwyr a gweinyddiaethau yn gweithio gyda'i gilydd ledled y DU i reoli materion trawsffiniol, megis newid yn yr hinsawdd, ansawdd dŵr neu lygredd aer lle mae dull cydweithredol yn hanfodol. Byddai fframwaith cyffredin yn dilyn dull tebyg i fframwaith cyffredol yr UE yn cydnabod ac yn parchu gwahanol fframweithiau cyfreithiol a deddfwriaeth ddatganoledig ledled y DU.

Byddai eglurder ar fanylion a chyfeiriad y dull ar gyfer nifer o fframweithiau a chytundebau cyffredin y DU rhwng UKG, LIC a'r DAau eraill yn cael eu croesawu. Byddai hyn yn cefnogi ein parodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio a'r newidiadau posibl y gallai hyn eu hachosi i'r safonau a'r mesurau a gymhwysir gan Weinyddiaethau'r DU. Byddai hyn hefyd yn helpu i ddiogelu safonau ac egwyddorion amgylcheddol LIC.

4.3 Marchnadoedd mewnol a chytundebau rhynglywodraethol

Mae ansicrwydd ynghylch rôl ffurfiol DAau wrth bennu siâp safonau marchnad fewnol newydd yn y dyfodol (e.e. trwy Swyddfa'r Farchnad Fewnol). Ymhlith yr enghreifftiau perthnasol mae:

- Dylai Bil Pysgodfeydd y DU a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pysgodfeydd ddarparu'r fframwaith ar gyfer cytundebau rhynglywodraethol y DU gan gynnwys Mekanwaith Datrys Anghydfod ac ystyriaeth o'r Concordat.
- Mae cytundebau rhynglywodraethol yn cael eu hadolygu a'u cytuno fel y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diweddar ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS).
- Sefydlu systemau dogfennau Cyfeirio (BREF) Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT) yn y DU.
- Er nad oes gennym lawer o gysylltiad uniongyrchol â'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Cemegion, rydym yn ymwybodol ei fod yn dod yn ei flaen yn foddhaol. Rydym yn cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan nodi'r trefniadau i gyflawni ein priod ddyletswyddau o dan Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) – y DU.

Mae risg na fydd cymwyseddau datganoledig DA yn cael eu diogelu'n ddigonol, ac y bydd Cymru'n colli'r gallu i osod safonau amgylcheddol yn annibynnol. Gallai hyn fod yn niweidiol i'r amgylchedd yng Nghymru. Mae CNC yn awyddus i gefnogi Llywodraeth Cymru trwy ganllawiau ar sail tystiolaeth i gynnal a gwella safonau amgylcheddol, i amddiffyn cyflwr ein hamgylchedd a chyflawni SMNR. Er enghraifft, nid yw'n eglur pa effaith y bydd Bil Marchnad Fewnol UKG yn ei chael ar rheoleiddio cyflenwad dŵr y dyfodol o Gymru i Loegr.

Dylai'r dull hwn ddarparu eglurhad ar sut mae rheoleiddwyr a gweinyddiaethau'n gweithio gyda'i gilydd ledled y DU i reoli materion trawsffiniol lle mae dull cydweithredol yn hanfodol. Mae risg o ymwahanu rhwng DAau ac UKG o ran egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu. Mae materion fel newid yn yr hinsawdd, ansawdd dŵr, ansawdd aer a llygredd yn dibynnu ar ddull cydweithredol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Bydd hyn hefyd yn cefnogi cynnal safonau diwydiannol ac amgylcheddol ledled y DU a Chymru.

4.4 Goblygiadau Protocol Gogledd Iwerddon (y Protocol)

Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn rhan o Ddeddf Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Tynnu'n Ôl) 2020 Llywodraeth y DU 2020. Mae'r Protocol yn sicrhau na fydd ffin galed ar ynys Iwerddon os bydd Brexit heb gytundeb neu gytundeb sy'n gul ei chwmpas. Bydd Gogledd Iwerddon yn parhau i orfodi rheolau tollau'r UE ac yn dilyn ei reolau ar safonau cynnyrch (y farchnad sengl ar nwyddau). Gallai telerau'r Protocol effeithio o bosibl ar weithrediad marchnad fewnol y DU ac unrhyw fframweithiau cyffredin cysylltiedig.

4.5 Deddfwriaeth Sylfaenol: fframweithiau ac amserlenni cyffredin

Mae pryderon y bydd Bil Amaethyddiaeth, Bil yr Amgylchedd a Bil Pysgodfeydd UKG yn arwain at ymwahaniad rheoleiddiol rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU yn yr ardaloedd hyn. Mae Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi papurau briffio ar bob un o'r biliau hyn, gan nodi'r angen am eglurder ynghylch a ydynt yn ystyried telerau'r Protocol ac yn cydymffurfio â hwy. Maent hefyd wedi codi ymholiadau ynghylch y potensial i ddeddfwriaeth

o'r fath arwain at ymwahaniad rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU, o ystyried gofynion y Protocol ynghylch cymhwyso cyfraith yr UE yn y meysydd hyn. Gallai dargyfeiriad o'r fath fod â goblygiadau sylweddol i farchnadoedd mewnol y DU a fframweithiau cyffredin a gallai gael effaith ar Gymru.

Fel yr amlygwyd mewn adrannau blaenorol, mae graddfa a chyflymder y newid ar gyfer parodrwydd polisi, deddfwriaeth, rheoliadau a seilwaith yn heriol iawn i LIC, CNC, asiantaethau eraill ac aelodau o'r cyhoedd. Mae Covid-19 yn creu haen ychwanegol o gymhlethdod o amgylch gweithrediadau o ddydd i ddydd a risgiau digwyddiadau cydamserol, er enghraifft os bydd brig Covid-19 yn digwydd yn ystod yr Ymadawiad â'r UE a chyda chynnod o lifogydd. Gallai Covid-19 effeithio ar y cyllid sydd ar gael, gyda'r posibilrwydd y bydd cyllidebau'r dyfodol yn cael eu cyfyngu neu eu lleihau ymhellach.

Bydd yr amgylchedd polisi a deddfwriaethol yng Nghymru a'r DU yn destun newid digynsail dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd yr Ymadawiad â'r UE, Covid-19 a newid yn yr hinsawdd. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu ymateb i'r heriau lluosog hyn i amddiffyn amgylchedd Cymru. Fel yr ydym wedi'i nodi yn ein hymateb, mae'r amserlenni ar gyfer gweithredu deddfwriaeth, prosesau llywodraethu, seilwaith ffiniau, prosesau mewnforio ac allforio a gofynion tollau newydd yn heriol i ddeddfwyr, rheoleiddwyr a busnesau. Er enghraifft:

- Mae amserlenni'n dynn wrth weithredu Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS) newydd y DU.
- Mae'n bosibl y bydd angen gweithredu'r OS Dim Cytundeb ar gyfer cludo gwastraff fel mesur tymor byr oherwydd cyfyngiadau amser. Ar hyn o bryd mae CNC yn drafftio negeseuon cyfathrebu wedi'u diweddarau i'r sector.

Mae'r effeithiau hyn a'r amserlenni cysylltiedig yn arbennig o heriol i sectorau llai a llai agregedig fel yr amlygir yn adran 2.

Gwybodaeth ategol ychwanegol

5.1 Trosolwg

- Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r Corff mwyaf a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyflogi 1,900 o staff ledled Cymru gyda chyllideb o £180 miliwn. Ein rolau a'n cyfrifoldebau yw:
- Cynghorydd: prif gynghorydd i Lywodraeth Cymru, a chynghorydd i ddiwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, a chyfathrebwr ynghylch materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol.
- Rheoleiddiwr: yn amddiffyn pobl a'r amgylchedd gan gynnwys diwydiannau morol, coedwig a gwastraff, ac yn erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt.
- Dynodwr: ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - ardaloedd o werth arbennig am eu bywyd gwylt neu ddaeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â chyhoeddi Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.
- Ymatebydd: i oddeutu 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol yr adroddir amdanynt bob blwyddyn, fel ymatebydd brys Categori 1.
- Ymgynghorydd statudol: i oddeutu 9,000 o geisiadau cynllunio'r flwyddyn.
- Rheolwr / Gweithredwr: yn rheoli saith y cant o arwynebedd tir Cymru gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd, ac yn rhedeg ein canolfannau ymwelwyr, cyfleusterau hamdden, deorfeydd a labordy.
- Partner, Addysgwr a Hwylusydd: cydweithredwr allweddol gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn darparu cymorth grant, ac yn helpu ystod eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu; yn gweithredu fel catalydd i waith eraill.
- Casglwr tystiolaeth: yn monitro ein hamgylchedd, yn comisiynu ac yn ymgymryd ag ymchwil, yn datblygu ein gwybodaeth, ac yn bod yn gorff cofnodion cyhoeddus.
- Cyflogwr: bron i 1,900 o staff, yn ogystal â chefnogi cyflogaeth arall trwy waith contract.

Mae Rhaglen Ymateb UE CNC wedi sefydlu ffrwd waith trawsraglen i gwmpasu a datblygu cynlluniau lliniaru ar gyfer goblygiadau tymor byr, canolig a hir dymor gadael yr UE, gyda phwyslais penodol ar bolisiâu a rheoliadau. Mae rolau polisi swyddogaethol Brexit wedi'u recriwtio i gefnogi ein Rhaglen Ymateb yr UE a CNC, i ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi ar lefel Cymru a'r DU o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Yn ogystal, mae Rhaglen Dim Cytundeb CNC, dan arweiniad y Cyfarwyddiaethau Rheoli Digwyddiadau a Gweithrediadau, yn paratoi CNC ar gyfer senario posibl lle mae'r DU yn gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020 heb gytundeb masnach a'r goblygiadau i ni yn y tymor byr (y risgiau tebygol o ran rheoli adnoddau a digwyddiadau).

Mae Rhaglen Ymateb yr UE yn gweithio'n agos gyda staff Digwyddiadau a Gweithrediadau i sicrhau ein bod yn barod i reoli effeithiau Ymadael â'r UE o dan unrhyw senario. Rydym yn monitro datblygiadau, yn darparu cyngor ac arweiniad ac yn sicrhau bod CNC yn barod ar gyfer newid.

Yn CNC rydym wedi gweithio ar draws swyddogaethau a chyfarwyddiaethau i nodi lle mae risgiau a chyfleoedd yn bodoli a'r gwaith sy'n ofynnol i liniaru'r risgiau hyn. Rydym yn ymgysylltu â LIC a'r holl asiantaethau a rhanddeiliaid perthnasol i gynllunio ar gyfer a rheoli effeithiau'r newidiadau a ddaw yn sgil Ymadael â'r UE o dan unrhyw senario. Mae mwy o fanylion o'n Rhaglen Dim Cytundeb i'w gweld isod.

5.2 Rhaglen Digwyddiad Dim Cytundeb Digwyddiadau a Gweithrediadau

Mae Rhaglen Dim Cytundeb CNC, dan arweiniad y Cyfarwyddiaethau Rheoli Digwyddiadau a Gweithrediadau, yn paratoi CNC ar gyfer senario posibl lle mae'r DU yn gadael yr UE ar 31 Rhagfyr 2020 heb gytundeb masnach a'r goblygiadau i ni yn y tymor byr (y risgiau tebygol o ran rheoli adnoddau a digwyddiadau). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Rydym wedi cynyddu Rotâu Digwyddiadau trwy ddyrannu dros 100 o aelodau staff ychwanegol ar gyfer hyfforddiant i gyflawni rolau dyletswydd digwyddiadau.
- Rydym yn parhau i adolygu ein cynlluniau parhad busnes gan ystyried yr adolygiad o'n gwaith Ymadael â'r UE blaenorol ac ôl-drafodaeth o'n hymateb Covid-19 ac rydym wedi gwella ein gallu TGCh i gefnogi'r gwaith hwn.
- Rydym wedi datblygu cofrestr o 75 o sgiliau rheoli digwyddiadau allweddol ynghyd â lleoliadau staff sy'n meddu arnynt, i baratoi ar gyfer unrhyw ofyniad cynyddol i ymateb i ddigwyddiadau.
- Rydym yn adolygu cynlluniau porthladdoedd ac yn ystyried effeithiau digwyddiadau lluosog yn ystod cyfnod y Gaeaf.
- Rydym wedi ymgymryd ag Ymarfer Trident, ymarfer parodrwydd ac aflonyddwch parhad busnes CNC sy'n canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig.
- Rydym wedi cyflwyno cynllun cyfathrebu polisi ac ymateb cysylltiedig.